# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cygnor Nos Fawrth, Mai 13eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Catrin Charles, Arwel Davies a Huw Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.
i) Ffos ger mynedfa Pant Neuadd – yn anffodus nid oedd adnoddau ar gael i gwblhau'r gwaith ar hyn o bryd.
ii) Ffosydd angen eu clirio ger Rhydyfen – roedd y gwaith wedi cael ei ychwanegu i restr gwaith y gweithlu.
iii) Roedd cais wedi mynd i'r Uned Waith Glanhau Strydoedd i ymweld â'r ardal gyda'r peiriant ysgubo.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn
i) Gwahoddiad i agoriad swyddogol Canolfan Bro Tegid.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mai 2025.

c) Amrywiol.
i) Dŵr Cymru – gwahoddiad i ymweld â'i safle yn Llyn Celyn i gael diweddariad ar y gwaith adeiladu gorlifan newydd Cafwyd adroddiad gan Geraint Jones o'r datblygiadau diweddaraf.
ii) Llythyr gan unigolyn yn gwrthwynebu bwriad Angling Cymru i gynnal digwyddiad caiacio ar Lyn Tegid ym mis Medi. Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw fanylion swyddogol am y digwyddiad nid oedd yn bosib iddynt roi barn ar hyn o bryd.
iii) Parc Cenedlaethol – gwahoddiad i gyfarfod Zoom i roi diweddariad ar eu proses o ddiwygio eu cynlluniau strategol.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol. Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.
NP5/72/241B - Adran 257, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Bwriad i wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 49, ger 1 Maes Gwyn, Rhyduchaf.
NP5/72/223G – Trosi adeilad allanol i ffurfio anecs i'r annedd presennol. Blaen y Cwm Isaf. Parc.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
Derbyniwyd rhandal cyntaf o'r Praesept - £2375

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu Zurich (yswiriant)



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

c) Ceisiadau ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen:-
i) Y ffordd o gwmpas y grid gwartheg ar yr B4391, ger Tai Hirion, Arenig angen sylw.
ii) Coeden ger Bryn Tirion, Maesywaen yn gwyro i'r ffordd.
iii) Glaswellt yn y darn tir yn ganol pentref Rhyduchaf, heb gael ei dorri er bod y parc chwarae ac ochr y ffyrdd wedi.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….